


**Yn Olaf Ond Nid Leiaf**

Rownd 5 yw'r rownd olaf o ddyfarniadau grantiau ar gyfer Sefydliad Celfyddydol Ulrike Michal.

Cafodd y sefydliad ei sefydlu ar ddiwedd 2019 gan dri ffrind i Ulrike Michal, sef milfeddyg o'r Swistir a ymgartrefodd yn Swydd Gaer, gan ddilyn ei chariad tuag at gelf yn ei hamser hamdden - gartref, fel aelod o'r *Liver Sketching Club* (y clwb hynaf i artistiaid yn Lerpwl), ac fel myfyrwraig israddedig ran-amser mewn celfyddyd gain ym Mhrifysgol Bangor yng Ngwynedd, gogledd Cymru.

Nod Sefydliad Ulrike Michal yw *“hyrwyddo, annog ac ymestyn y cariad, y gwerthfawrogiad, y mwynhad, y ddealltwriaeth a’r ymarfer o’r celfyddydau cain, addurniadol a chymhwysol ymhlith pobl o bob oedran trwy brofiadau mewn amgueddfeydd, orielau celf, eiddo hanesyddol ac o fewn y gymuned ehangach, boed os yw hynny'n unigol neu'n gymunedol, fel cyfranogwyr a gwylwyr.”*

Cafwyd llwyddiant yn y nod hwn drwy gyflwyno grantiau gydag arian o ystâd Ulrike Michal. Y nod fu defnyddio’r arian hwnnw er budd eraill o fewn y meysydd bywyd - celfyddyd gain, darlunio a phaentio - a oedd yn golygu cymaint i Ulrike, yn ystod ei magwraeth yn Basel, y

Swistir, ac yn ei bywyd fel oedolyn pan ymgartrefodd yn Swydd Gaer.

**Roedd yr Ymddiriedolwyr yn gallu dyfarnu naw gwobr yn Rownd 4 ac isod ceir diweddari-adau ar ychydig o'r prosiectau y dyfarnwyd grantiau ar eu cyfer yn gynharach eleni.**

**CG0038 *Imprinted Place*—Darlunio Llafur a Thirwedd mewn Amgylchedd Newidiol**

Mae *Imprinted Place* yn brosiect sydd wedi'i gynllunio a'i gyflwyno gan yr artist a'r argraffydd, Molly Brown, a leolir yn Sir Amwythig.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar greu celf (printiau ar raddfa fawr a bach) wedi'i hysbrydoli gan ffermio (mewn arferion traddodiadol a modern) a'r amgylchedd lleol drwy gyrsiau celf preswyl, gweithdai ymgysylltu ac arddangosfa.

Hyd yn hyn, mae Molly Brown wedi cynnal neu gyflwyno gweithdy argraffu galw heibio i gyd-fynd â Llwybr Bwyd Da Sir Amwythig, gweithdy argraffu cerfwedd dau ddiwrnod, a dau gwrs preswyl wythnos o hyd, un mewn perllan draddodiadol a'r ail yn ystod amser cyn-haeaf ar fferm weithredol.



Cynllunnir yr arddangosfa derfynol ar gyfer mis Mawrth 2025 yn Oriel Qube yng Nghroesoswallt yng ngogledd-orllewin Sir Amwythig.

*Ceirch, argraffiad gwreiddiol gan Molly Brown, 2024*

**CG0037 Ymateb Caughley ac Ail-ddychmygu Porslen y 18fed Ganrif yn yr 21ain Ganrif**

Dyma brosiect cydweithredol sydd wedi'i drefnu gan Sarah Skelton o Amgueddfeydd Sir Amwythig mewn partneriaeth â'r artist serameg, Paul Scott.

Mae'r prosiect wedi'i ysbrydoli gan gasgliad serameg yn yr amgueddfa a wnaed gan ffatri Porslen Caughley yn Sir Amwythig yn y 18fed ganrif.






*Eitemau o Gasgliad Caughley, trwy garedigrwydd Amgueddfa ac Oriel Gelf Sir Amwythig.*

Mae'r prosiect yn cynnwys Paul Scott yn astudio'r casgliad yn storfa celf addurniadol yr amgueddfa ac yna'n datblygu gweithiau sy'n ymateb ac yn ategu cynnyrch gwreiddiol Caughley. Bydd y porslen hanesyddol a darnau newydd Paul Scott yn ymddangos mewn arddangosfa newydd yn gynnar yn 2026. Bydd yr amgueddfa a'r artist hefyd yn gweithio gyda'r Young Collective, grŵp lleol o bobl ifanc 18-24 mlwydd oed, i ddatblygu digwyddiadau a gweithgareddau sydd wedi'u hysbrydoli gan y prosiect.

Dechreuodd ymchwil Paul Scott ym mis Gorffennaf ac ymddengys bod y jygiau Caughley, yn eu gwahanol feintiau, wedi denu ei sylw. Ym mis Awst, ymwelodd yr artist serameg, Ed Bentley â'r Amwythig i weld y jygiau. Bydd Ed Bentley yn creu'r jygiau a fydd yn cael eu haddurno wedi hynny gan Paul. Bydd eu gwaith yn y pen draw yn ymuno â chasgliad Amgueddfa Sir Amwythig i'w cadw a'u harddangos ochr yn ochr â'r porslen Caughley gwreiddiol. Bydd yr Young Collective yn ymuno â'r prosiect yr hydref/gaeaf hwn.






**CG0048 Adfer Oriel Gelf Joseph Mayer**

Gwnaeth Partneriaeth Gymunedol Joseph Mayer gais i'r Sefydliad am arian i'w helpu i ail-sefydlu oriel gelf Neuadd Mayer ac felly cefnogi artistiaid lleol drwy ddarparu lleoliad newydd ar gyfer arddangosfeydd ar Gilgwri (y Wirral).

Mae Neuadd Mayer yn un o gyfres o adeiladau diwylliannol ac addysgol a adeiladwyd gan Joseph Mayer yn y 1860au a'r 1870au, ac a roddwyd i bobl Bebington, y pentref sydd gerllaw Port Sunlight.



Nod y prosiect oedd defnyddio arian oddi wrth Sefydliad Ulrike Michal i osod system arddangos rheiliau celf a fyddai'n galluogi'r neuadd i gynnal arddangosfeydd celf yn haws ac yn fwy cynaliadwy yn rheolaidd, heb niweidio'r adeilad a waliau'r oriel.

Gosodwyd y system newydd dros yr haf a chynhaliwyd yr arddangosfa gyntaf, a gyflwynwyd mewn cydweithrediad â Chymdeithas Artistiaid y Wirral, yn swyddogol ar 20 Medi, 2024.

*System arddangos newydd ar waith.*

**CG0050 Ein Portread Cynharaf, Oriel Môn, (Mawrth – Medi 2024)**



Yn 2019, rhoddwyd portread o ddechrau'r 18fed ganrif mewn ffrâm dros dro, nad oedd yn addas ar gyfer ei arddangos, i Oriel Môn, amgueddfa ac oriel gelf sirol, Ynys Môn, sydd wedi'i lleoli yn Llangefni.

Wedi'i baentio yn 1726, dyma'r paentiad portread hynaf yng nghasgliad yr amgueddfa. Nod y cais am grant oedd sicrhau arian i roi ffrâm a gwydr priodol ar y paentiad fel y gallai gael ei arddangos yn gyhoeddus.

TTestun y paentiad yw Ambrose Lewis, tirfeddiannwr lleol, sy'n gwisgo dillad tywyll priodol a ffafriwyd ar ddechrau'r 18fed ganrif yng Nghymru. Mae'r paentiad yn dangos arfbais hynafiad y gwrthrych sef Hwfa ap Cynddelw, ac mae'r arfbais hon yn ymddangos ar faner swyddogol Ynys Môn a fabwysiadwyd yn 2014.




Mae'r paentiad wedi'i fframio hyd at safonau cadwraeth amgueddfeydd ac ym mis Awst cafodd ei arddangos o fewn Oriel Hanes yr amgueddfa. Yn ogystal, ysbrydolodd y paentiad weithgaredd allanol gyda phlant yn Sioe Flynyddol Môn yn ystod gwyliau ysgol yr haf.

Mae'r pedwar prosiect hyn yn rhoi syniad o'r amrywiaeth o weithgareddau celfyddyd gain ac addurniadol y mae'r Sefydliad yn awyddus i'w cefnogi.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am grant Rownd 5 yw 20 Rhagfyr 2024.**